# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 11 Rhagfyr 2002

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**2.00pm**
**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 7 yn ol.

**2.22pm**
**Cwestiynau i Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd**
Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ol.

**2.45pm**
**Pwyntiau o Drefn**
Cywirodd y Gweinidog dros Addysg datganiad a gwnaethpwyd ganddi yn y cyfarfod llawn ar 13.11.02.

**2.47pm**
**Cynnig i gymeradwyo'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru a'r cynllun gweithredu**
**NDM1254 Carwyn Jones Pen-y-bont ar Ogwr**
Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru;

2. Yn cydnabod y bydd yn galluogi gwasanaethau ar draws pob sector yng Nghymru i gynllunio er mwyn bodloni anghenion cymdeithas sydd â mwy o bobl hn a gwella gwasanaethau ar gyfer pobl hn;

3. Yn cydnabod y bydd y Strategaeth yn cyfrannu at, ac yn cael cefnogaeth oddi wrth, bolisïau a rhaglenni ar draws holl feysydd gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru;

4. Yn cymeradwyo canlyniad y Strategaeth bod gan lywodraeth leol rôl arweiniol i'w chwarae wrth hyrwyddo buddiannau bobl hn ar lefel leol ac yn y cymunedau; ac

5. Yn cefnogi'r cynnig i ddatblygu Strategaeth a chynllun gweithredu perthynol gyda chyngor oddi wrth y Fforwm Bartneriaeth Genedlaethol ar gyfer Pobl Hn a buddsoddiad o dros £10

miliwn dros y 3 blynedd nesaf i gynnal y broses o'i roi ar waith.

*Anfonwyd copi o Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru Ar Gyfer Pobl Hyn at yr Aelodau drwy'r e-bost ar 4 Rhagfyr 2002.*

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:
(1),(3),(4),(5) + (8)
(2),(6) + (7)

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Yn llinell 1, dileer ‘Mae’r Cynulliad Cenedlaethol’ a rhodder yn ei le: ‘Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru’

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt 1, yn rhoi 'nodi' yn lle 'croesawu'

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger ar ddiwedd pwynt 1:

'ac yn cydnabod mai un o’r gofidiau mwyaf sy’n wynebu pobl wrth iddynt heneiddio yw gofid ynghylch eu hincwm.'

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger ar ddiwedd pwynt 2:

'ac y bydd cydweithrediad mudiadau gwirfoddol yn hanfodol wrth roi ei strategaeth ar waith a chrêd y dylent gael eu hariannu mewn ffordd a fyddai’n sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu a’u datblygu yn y tymor hir.’

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger at bwynt 4:

'ac yn sicrhau bod arian digonol yn cael ei roi i awdurdodau lleol iddynt allu darparu gwasanaethau i bobl hyn.'

**6. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt 5, yn dileu popeth ar ôl 'Fforwm Bartneriaeth Genedlaethol ar gyfer Pobl Hyn' ac yn rhoi yn eu lle 'ac yn galw ar y Fforwm i ymgynghori ar lefel y buddsoddi sydd ei hangen i

weithredu'r strategaeth.'

**7. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:

Yn credu y dylai'r Fforwm ar gyfer Pobl Hyn gael ei gadeirio gan berson annibynnol o'r sector gwirfoddol.

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger fel pwynt bwled newydd:

'Yn cyfarwyddo’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i ystyried effeithiau’r Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru ar y Strategaeth Dai Genedlaethol.'

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:**
O blaid 8; Ymatal 12; Yn erbyn 31; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:**
O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 31; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:**
O blaid 19; Ymatal 1; Yn erbyn 30; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5:**
O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 6:**
O blaid 9; Ymatal 11; Yn erbyn 31; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 7:**
O blaid 8; Ymatal 12; Yn erbyn 30; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 8:**
O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 31; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd y cynnig wedi'i diwygio.**

**3.50pm**
**Dadl ar Araith y Frenhines**
**NDM1253 Carwyn Jones Pen-y-bont ar Ogwr**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnwys Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer 2002-03;

2. Yn nodi bod y Mesurau arfaethedig canlynol yn berthnasol i gyfrifoldebau'r Cynulliad:

a) Cyfathrebu ( Y Pwyllgor Diwylliant)
b) Gofal Cymunedol ( Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)
c) Iechyd a Gofal Cymdeithasol ( Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)
d) Llywodraeth Leol (Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai)
e) Diwygio Cynllunio a Phrynu Gorfodol (Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth)
f) Masnachu Gwastraff a Gollyngiadau (Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth)

3. Yn cyfeirio'r Mesurau uchod at y pwyllgorau pwnc a nodwyd er mwyn iddynt ystyried ymhellach pa ddarpariaethau y dylent eu gwneud ar gyfer Cymru a sut y gallai'r Cynulliad ddefnyddio'i bwerau newydd, ac yn gofyn i bob pwyllgor roi adroddiad i'r Cynulliad.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:
(1),(5),(6),(7),(8),(9),(10),(11) + (12)
(2),(3) + (4)

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwaneger at ddiwedd pwynt 1:

'ond yn gresynu bod Llywodraeth y DU wedi methu ag ymateb yn ddigonol i gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol'

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd cyn y pwynt 2 presennol ac ailrifo'r pwyntiau sy'n weddill yn unol â hynny:

Yn gresynu bod y llywodraeth wedi methu â dwyn ymlaen ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â mater difrifol dyfodol pensiynau, sef mater sydd yn achosi pryder a dioddefaint i lawer o bobl Cymru.

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd cyn y pwynt 2 presennol ac ailrifo'r pwyntiau sy'n weddill yn unol â hynny:

Yn gresynu bod y llywodraeth wedi methu â dwyn ymlaen ddeddfwriaeth ar gyfer ysbytai sefydledig yng Nghymru.

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd cyn y pwynt 2 presennol ac ailrifo'r pwyntiau sy'n weddill yn unol â hynny:

Yn gresynu bod y llywodraeth yn rhoi blaenoriaeth ddeddfwriaethol uchel i wahardd hela â chwn.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwaneger at ddiwedd 2(b):

'a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwaneger is-bwynt newydd ym Mhwynt 2:

'Mesur Cyfiawnder Troseddol (Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai)'

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwaneger is-bwynt newydd ym Mhwynt 2:

'Mesur Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol (Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai)'

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i drafod gyda Llywodraeth y DU er mwyn rhoi blaenoriaeth i Ddeddf Llywodraeth Cymru newydd a fyddai'n datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol bwerau i wneud deddfwriaeth sylfaenol ac i amrywio trethi.'

**9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwaneger fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gadarnhau penderfyniad y Cyfarfod Llawn y câi is-ddeddfwriaeth ym Mesur Hela Cymru a Lloegr ei gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol.'

**10. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwaneger fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau nad yw'r mesurau a geir yn y Mesur Gofal Cymunedol i gosbi Awdurdodau Lleol am eu harafwch wrth ryddhau cleifion yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru heb benderfyniad y Cyfarfod Llawn.'

**11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwaneger fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod y bydd y mesurau yn y Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn arwain at sefydlu ysbytai sefydliedig a thrwy hynny, creu system iechyd dwy haen.

**12. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwaneger fel pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn gresynu bod Llywodraeth y DU wedi methu â dod â mesur gerbron i adolygu Fformwla Barnett er mwyn unioni anghyfiawnder sylfaenol y setliad ariannol i'r Cynulliad Cenedlaethol.'

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 53
**Derbyniwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:**
O blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 46; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:**
O blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 31; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5:**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 6:**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 3; Cyfanswm 53
**Derbyniwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 7:**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Derbyniwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 8:**
O blaid 15; Ymatal 5; Yn erbyn 33; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 9:**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 10:**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 31; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 11:**
O blaid 15; Ymatal 0; Yn erbyn 38; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 12:**
O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 33; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd y Gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 33; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**5.11pm**
**Dadl fer - NDM1255 Gareth Jones (Conwy);** Y Gyfundrefn Gludiant yn y Gogledd - i ba gyfeiriad - integreiddio neu datgymalu**?**

**5.42pm**
**Pwynt o Drefn**

Cododd Ieuan Wyn Jones pwynt o drefn ar y Dadl ar Araith y Frenhines.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.45pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 17fed Rhagfyr 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a osodwyd ar 10 Rhagfyr 2002

Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2003 – LD1755
Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2003 – LD1756

### Adroddiadau'r Pwyllgor Deddfau a osodwyd ar 10 Rhagfyr 2002

LC578 - Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) a (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002 – LD1765
LC579 - Rheoliadau Arolygu Ysgolion a Cholegau Byrddio (Pwerau a Ffioedd)(Cymru) 2002 – LD1764
LC581 - Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2002 – LD1763
LC582 - Gorchymyn Rhestri Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2002 – LD1762
LC583 - Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2002 – LD1761
LC584 - Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2002 – LD1760
LC585 - Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2002 – LD1759
LC586 - Gorchymyn Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru (Awdurdodaeth) 2002 – LD1758
LC573 - Gorchymyn Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (Cychwyn) (Cymru) (Rhif 2) 2002 – LD1757